Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Anfon Deunydd at Bapurau Bro

www.steddfota.org

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

ANFON DEUNYDD AT BAPUR BRO

Cofiwch fod papurau bro (fel eisteddfodau lleol) yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr prysur iawn. Cyfrifoldeb eisteddfod leol, yn hytrach na'r papur bro, yw sicrhau bod deunydd am yr eisteddfod yn cyrraedd y papur. Mewn tegwch ni ellir disgwyl i olygyddion papurau bro gysylltu â holl drefnwyr digwyddiadau yn eu hardal - eich eisteddfod chi yw hi, a chi ddylai ei hyrwyddo mewn unrhyw fodd posib.

Mae'r oes o anfon dwsinau o baburau bychain at wasg wedi dod i ben yn sawl ardal gyda mwy a mwy o weisg yn derbyn newyddion, erthyglau a hysbysebion ar ffurf digidol. Gan amlaf rhaglenni cyfrifiadurol fel Word, Wordperfect ac yn y blaen yw'r rhai mwyaf poblogaidd. Felly i'w gwneud yn haws i newyddion eich eisteddfod gyrraedd tudalennau eich papurau bro lleol, gwnewch waith y golygyddion a'r wasg yn haws – cyflwynwch y deunydd yn unol â'r canllawiau isod.

HAWLFRAINT

Cyn anfon dim holwch am yr hawl i gyhoeddi deunydd. Am nifer o resymau cofiwch nad yw pawb eisiau gweld ei lun yn y papur bro na 'chwaith eisiau gweld eu cerddi neu erthyglau buddugol yno. Felly sicrhewch bod yr hawl gan y papur i gyhoeddi lluniau a gwaith gwreiddiol. Nodwch natur y caniatâd wrth anfon y deunydd, fe fydd hynny'n ei gwneud y haws i'r golygyddion benderfynu beth i'w gynnwys a beth i'w adael allan.

ANFON TESTUN

• Os nad oes gennych gyfrifiadur, holwch rhywun lleol a fyddan nhw'n fodlon teipio'r cynnwys er mwyn i chi gael golwg arno cyn ei anfon at y gosodwyr neu'r wasg. Mae hynny'n lleihau gwaith y wasg yn fawr ac yn sicrhau llai o gamgymeriadau.
• Pa bynnag ffordd y cyflwynir y testun dylid ei anfon **wedi ei olygu a'i gywiro**. Ni ddylid rhoi'r bai ar yr argraffdy os yw enw rhywun neu capsiwn i lun yn anghywir.
• Mae unrhyw wasg gwerth ei halen yn derbyn dogfennau Word, WordPerfect neu PDF (er mai Word yw'r mwyaf poblogaidd).

ANFON LLUNIAU

Lluniau mewn dogfennau Word

• Ni ddylid ar unrhyw gyfrif anfon lluniau sydd wedi eu sodro (embedded) mewn dogfen Word. Anfonwch y llun gwreiddiol ('jpeg' neu 'tiff') nid llun wedi ei lwytho i mewn i dudalen Word.
PWYSIG: Nid yw lluniau (yn cynnwys logos) sydd wedi eu dadlwytho oddi ar y we yn ddigon derbyniol i'w cynnwys mewn cyhoeddiad sy'n cael ei argraffu. Felly peidiwch ag anfon lluniau neu logos oddi ar wefannau. Mae lluniau felly fel arfer yn edrych yn flêr heb fod yn glir o gwbl ac yn creu cur pen i'r dylunwyr a'r argraffdy.
• Gyda lluniau ar ffurf print mae'n bosib sgwennu'r capsiwn ar ei gefn ond mae'n fater gwahanol gyda llunau digidol. Os oes modd newidiwch enw'r llun (sef enw'r ffeil ddigidol) i agwrymu beth yw cynnwys y llun (e.e newidiwch 'IMG_DS00765.jpg' i enw tebyg i 'ffionjonesadrodd.jpg'). Wedi'r cyfan ni ellir disgwyl i'r argraffdy nabod pawb sydd wedi cystadlu. Cofiwch gynnwys capsiwn i fynd o dan y llun.
• Mae lluniau sy'n cael eu defnyddio ar wefannau wedi eu creu i lwytho'n gyflym ac i edrych yn iawn ar sgrîn cyfrifiadur. Mae lluniau ar gyfer papurau bro, taflenni a chylchgronau yn wahanol iawn. Y gwahaniaeth yw'r hyn a elwir yn 'resolution' (sef y nifer o ddotiau ym mhob modfedd sgwâr). Mae lluniau ar y we yn 72 dot y fodfedd (dpi) a lluniau i'w hargraffu yn cynnwys 300 dot y fodfedd (dpi). Os nad yw'r resolution yn gywir fe fydd y lluniau'n edrych yn flêr iawn:

Llun o'r we - ('resolution' isel 72dpi) - aneglur

Llun o'r maint cywir - ('resolution' uchel 300dpi) - clir a safonol

Enghraifft o sut i anfon canlyniadau:

Enw'r ddogfen Word: **CanlyniadauMelinyCoed.doc**

Cynnwys y ddogfen sylwer ar y cyfeiriad at y llun)

Cerddoriaeth:
Meithrin a Derbyn: 1. Caron Ynyr Williams, Melin y Coed; 2. Leusa Elgan Metcalfe, Llanrhychwyn; 3. Erin Mai, Llanrwst; 4. Steffan Aled Roberts, Llanrwst. Bl 1 a 2: Cyd.1 Caitlin Valentine, Llanrwst ac Erin Fflur Edwards, Llanrwst. Bl 3 a 4: 1. Ela Wyn Jones, Eglwysbach; 2. Alex Valentine, Llanrwst; 3. Enid Hughes, Betws y Coed. Bl 5 a 6: 1.Sion Dafydd Edwards, Llanrwst. Cerdd Dant Bl 6 a Iau: 1. Erin Fflur Edwards, 2. Sion Dafydd Edwards. Alaw Werin Bl 6 a Iau: 1. Sion Dafydd Edwards. Unawd Bl 7 i 9: 1. Bethany Jones, Penmaenpŵl, 2. Cadi Gwyn Edwards, Llanrwst. Unawd gyda unrhyw offeryn cerdd Bl 7 i 9: 1. Bethany Jones. Alaw Werin Bl 7 i 9: 1. Cadi Gwyn Edwards. Unawd Cerdd Dant Bl 7 1 9: 1. Bethany Jones; 2. Cadi Gwyn Edwards. Alaw Werin Bl 7 1 9: 1. Cadi Gwyn Edwards. Deuawd Bl 9 a Iau: Cadi Gwyn a Sion Dafydd Edwards.
Unawd 15 i 19 oed: 1. James Edwards, Llangefni. Unawd dan 25 oed: 1. James Edwards; Unawd allan o Sioe Gerdd dan 30 oed: 1. James Edwards. Canu unrhyw emyn dros 60 oed: 1. Gwyn Jones, Abergele; 2. Tecwyn Blainey, Trefnant; Cyd. Glenys Jones, Llannefydd ac Eric Roberts, Mochdre. Unawd Cerdd Dant Agored: 1. James Edwards. Cân Werin Agored: 1. James Edwards. Her Unawd: 1. Trefor Wyn Jones, Pentre Berw; 2. Clarence Jones, Llanddaniel; 3. Eric Roberts. Unawd Gymraeg: Cyd. 1. Clarence Jones a Trefor Wyn Jones; 2. Eric Roberts, Wythawd: Melin-y-Coed (Arthur Davies); Parti Cymysg: Melin-y-Coed (John Eric Davies).

** [Llun yma: CaitlinacErinFflur.jpg. Capsiwn: '*Caitlin Valentine, Llanrwst ac Erin Fflur Edwards, Llanrwst yn gyd-fuddugol ar ganu Bl. 1 a 2*']

Adrodd: Meithrin a Derbyn: 1. Steffan Aled Roberts, Llanrwst. Bl .3 a 4: 1. Eban Carw Davies, Padog; 2. Noa Glyn Roberts, Llanrwst. Bl 5 a 6: 1. Sion Dafydd Edwards, Llanrwst; Bl 7 i 9: 1. Llio Bryfdir, Bontnewydd; 2. Cadi Gwyn Edwards, Llanrwst.
Adroddiad Digrif: 1. Robert Douglas Owen, Llanfair T H; 2. Elfed Parry Jones, Llangwm; 3. Rhys Jones, Corwen.. Prif Adroddiad: 1. Rhiannon Evans, Llansannan; 2. Rhys Jones, 3. Elfed Parry Jones. Parti Cyd-adrodd Agored: 1. Llais Afon (Dennis Davies).
Barddoniaeth a Llenyddiaeth:
Englyn: Meirion Jones, Llanfair P G
Telyneg: Emrys Williams, Llangernyw. Hen Bennill: Dewi ap Rhobert, Sir Fôn Limrig: Edna Davies, Llanfair T H.
Ysgrifennu i blant Bethel:
Dosbarth Meithrin/Derbyn: Caron Ynyr Williams, Arosfa. Bl 3 a 4: Lliwen Dafydd, Arosfa. Ysgol Uwchradd: Dylan Roberts, Golygfa'r Graig.
Gwerthu tocynnau'r Eisteddfod: 1. Lliwen a Caron, Arosfa; 2. Gwenan a Dylan, Golygfa'r Graig.

Anfonwch y llun, ar wahân, fel jpeg.